

<b>Adroddiad i'r</b>	<b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>9 Mehefin 2022</b>
<b>Aelod Arweiniol/Swyddog</b>	<b>Nicola Kneale, Pennaeth ar y Cyd Dros Dro Gwella Busnes a Moderneiddio</b>
<b>Awdur yr adroddiad</b>	<b>Emma Horan (Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad) ac Iolo McGregor (Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad)</b>
<b>Teitl</b>	<b>Cofrestr Risgiau Corfforaethol (Adolygiad mis Chwefror)</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1. Y wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad mis Chwefror 2022 o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1. I ddarparu gwybodaeth am yr adolygiad diweddaraf o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1. Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar y diwygiadau i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol (atodiad 1), yn cynnwys statws pob risg yn erbyn ein Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg (atodiad 2), ac yn nodi'r ddogfen grymo a ellir ei defnyddio gan Aelodau a swyddogion fel nodyn atgoffa (atodiad 3).

## **4. Manylion yr adroddiad**

4.1. Yr Uwch Dîm Arwain, ochr yn ochr â'r Cabinet, sy'n datblygu ac yn berchen ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Caiff ei hadolygu'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn ystod sesiwn friffio'r Cabinet.

- 4.2. Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol, caiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- 4.3. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Medi 2021. [Mae'r papurau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar gael ar-lein](#)
- 4.4. Defnyddiwyd dull parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor yn y trafodaethau a gafwyd gyda pherchnogion risg, a chaiff ein lefel risg (yn seiliedig ar y sgôr) ei dadansoddi o fewn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol (atodiad 1).
- 4.5. Mae'r newidiadau hyn wedi'u gwneud i'r gofrestr risg ac wedi'u nodi ar ddechrau pob risg yn atodiad 1. Sylwch fod atodiad 1 yn nodi Aelod/Aelodau Arweiniol pob risg ym mis Chwefror 2022, cyn etholiadau mis Mai 2022.

### **Crynodeb o'r newidiadau allweddol**

- 4.6. Mae'r adran ar reolaethau (ar gyfer pob risg, ble bo'n briodol) rŵan yn cynnwys rhestr o ddangosyddion y mae modd eu defnyddio i ddangos effeithiolrwydd y rheolaethau, ynghyd ag unrhyw sicrwydd mewnol neu allanol diweddar neu arfaethedig.
- 4.7. Mae Cofrestr Risgiau Brexit bellach ar gau. Mae rheolaethau perthnasol ac ati o'r gofrestr honno wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ble bo'n briodol.
- 4.8. Risg 14: Y risg o ddigwyddiad iechyd a diogelwch yn arwain at anaf difrifol neu farwolaeth. Mae'r sgôr risg wedi gostwng o D2 – Risg Fawr: Annhebygol / Effaith Sylweddol i ED – Risg Gymedrol: Anaml / Effaith Sylweddol, ac o fewn ein parodrwydd i dderbyn y risg.
- 4.9. Risg 16: Mae'r risg y bydd effaith y diwygiad lles (Credyd Cynhwysol) yn fwy sylweddol na'r disgwyl wedi'i rheoli'n llwyddiannus gan y Cyngor ac wedi'i thynnu o'r gofrestr.
- 4.10. Risg 18: Y risg na fydd buddion rhaglenni a phrosiectau ddim yn cael eu gwireddu'n llawn. Mae'r sgôr risg wedi codi o C2 – Risg Fawr: Posibl / Effaith Sylweddol i B2 – Risg Gritigol: Tebygol / Effaith Sylweddol, i adlewyrchu'r

heriau economaidd sydd yn ein hwynebu. Nid yw'r risg bellach o fewn ein parodrwydd i'w derbyn.

4.11. Mae ffocws Risg 36 wedi'i newid i adlewyrchu'r amgylchedd economaidd cyffredinol. Mae'r teitl wedi'i newid i "Y risg y bydd yr amgylchedd economaidd ac ariannol yn gwaethgu y tu hwnt i'n disgwyladau presennol, ac yn cael effaith andwyol ar fusnesau lleol a chaledi economaidd i'r gymuned."

4.12. Risg 49 (newydd): Y risg na fydd y trefniadau ariannu i'r dyfodol yn caniatáu i'r Cyngor barhau i gefnogi'r dysgwyr mwyaf diamddiffyn a phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio fel y gwnaethpwyd gyda chyllid yr UE.

4.13. Risg 50 (newydd): Y risg y bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofalu am blant sy'n derbyn gofal yn arwain at gyflenwad ansefydlog neu anaddas o leoliadau.

## **Parodrwydd i dderbyn risg**

4.14. Mae risgiau 1, 6, 13, 18, 21, 27, 33, 34, 36, 37, 43, 44, 45 a 49 (gwelwch atodiad 1) ar hyn o bryd yn anghyson â Datganiad Parodrwydd y Cyngor i Dderbyn Risgiau (atodiad 2).

4.15. Mae gennym ni gyfanswm o 22 risg ac mae 14 ohonynt yn anghyson â'n parodrwydd i dderbyn risg (64%). Roedd adolygiad mis Medi 2021 yn cynnwys 21 risg ac 13 ohonynt yn anghyson â'n parodrwydd i dderbyn risg (62%).

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Diben y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yw amlygu digwyddiadau posibl yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Felly, mae'r camau rheoli a gweithredu a amlygir yn hanfodol i gyflawni'r blaenoriaethau.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Mae costau datblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi'r risgiau sydd wedi'u canfod a'r camau lliniaru. Nid yw'r broses o ddatblygu ac adolygu'r ddogfen ei hun yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r nodau lles. Fodd bynnag, dylid asesu effaith ar les unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy'n cael eu llunio o ganlyniad i gam lliniaru.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Cynhaliwyd trafodaethau unigol gyda Pherchnogion Risg (Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol) gan gynnwys mewnbwn gan swyddogion sy'n arwain ar gamau pellach er enghraifft. Cyflwynwyd y gofrestr i'r Uwch Dîm Arwain ac i Sesiwn Frifio'r Cabinet er mwyn iddynt gytuno arni a/neu wneud diwygiadau pellach. Caiff y gofrestr ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi wrth ddatblygu, monitro nac adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Nid oes unrhyw risg yn gysylltiedig â'r adolygiad hwn.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Mae Adran 7.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn mynnu y dylai'r swyddogaeth graffu adolygu neu archwilio penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor, boed hynny gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor.